# Ffurflen Ymateb i Ymgynghoriad

## Is-ddeddfwriaeth ar gyfer gweithdrefnau rheoli datblygu newydd

Rydym eisiau'ch sylwadau ar ein cynigion ar gyfer y manylion i'w cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth sy'n cefnogi'r darpariaethau sydd ym Mil Cynllunio (Cymru) ar gyfer rheoli datblygu, ynghyd â'ch sylwadau ar rai newidiadau eraill i ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â rheoli datblygu.

***Dylech gyflwyno'ch sylwadau erbyn 11 Medi 2015.***

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr ymgynghoriad hwn, mae croeso ichi anfon e-bost at:
planconsultations-i@cymru.gsi.gov.uk rhif ffôn: Kristian Morgan 029 2082 3360.

| Diogelu Data |
|---|
| Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, mae enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'r manylion.<br><br>Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd yn rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth. |

**Atodiad 2**

Cyfeirnod yr Ymgynghoriad: WG249000

| **Is-ddeddfwriaeth ar gyfer y pwerau rheoli datblygu ym Mil Cynllunio (Cymru)** | | |
|---|---|---|
| **Dyddiadau'r cyfnod ymgynghori: 12 Mehefin 2015 – 11 Medi 2015** | | |
| **Enw** | **Rhian Jardine** | |
| **Sefydliad** | **Cyfoeth Naturiol Cymru/Natural Resources Wales** | |
| **Cyfeiriad** | **Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd,<br>Caerdydd.** | |
| **Cyfeiriad E-bost** | **rhian.jardine@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk** | |
| **Math**<br>*(dewiswch un o blith yr isod)* | Busnesau/ Ymgynghorwyr Cynllunio | ☐ |
| | Awdurdod Cynllunio Lleol | ☐ |
| | Asiantaeth Llywodraeth/Sector Cyhoeddus arall | ☒ |
| | Cyrff Cyhoeddus/Grwpiau Buddiant | ☐ |
| | Sector gwirfoddol (grwpiau cymunedol, gwirfoddolwyr, grwpiau hunangymorth, sefydliadau cydweithredol, mentrau cymdeithasol, sefydliadau crefyddol a sefydliadau dielw) | ☐ |
| | Arall (grwpiau eraill heb eu rhestru uchod) neu unigolyn | ☐ |

## 2.0 Ceisiadau Annilys: Hysbysu ac Apelio

| C1 | A ydych yn cytuno y dylai hysbysiad sy'n dweud nad yw cais yn ddilys gynnwys meini prawf a) i f)? | Ydw | Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach) | Nac ydw |
|---|---|---|---|---|
| | | ☒ | ☐ | ☐ |

Sylwadau:
**Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cytuno â chynnwys meini a) i f) fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori.**

| C2 | A ddylid cynnwys unrhyw wybodaeth gyda hysbysiadau peidio â dilysu. Os felly, pam mae'r wybodaeth hon yn angenrheidiol? | Dylid | Dylid (yn amodol ar sylwadau pellach isod) | Ni ddylid |
|---|---|---|---|---|
| | | ☒ | ☐ | ☐ |

Sylwadau:
**Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynghori pan fydd Awdurdod Cynllunio Lleol yn cyhoeddi hysbysiad peidio â dilysu ar gyfer caniatâd, cytundeb neu gymeradwyaeth sy'n ofynnol gan amod neu gyfyngiad y mae caniatâd cynllunio wedi cael ei ganiatáu yn amodol arno sydd wedi ei lywio gan gyngor a dderbyniwyd gan ymgynghorai statudol, yna rydym yn teimlo y dylid cynnwys y cyngor a ddarparwyd gan yr ymgynghorai statudol fel gwybodaeth hanfodol i fynd gyda hysbysiad peidio â dilysu.**

| C3 | A ydych yn cytuno bod cyfnod o 14 diwrnod i'r ymgeisydd gyflwyno ei apêl yn ddigonol o ystyried y dymuniad i ymdrin yn gyflym ag apeliadau o dan adran 28 o Fil Cynllunio (Cymru) (y Bil)? | Ydw | Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach) | Nac ydw |
|---|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☒ | ☐ |

Sylwadau:
**Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried bod 14 diwrnod yn gyfnod rhesymol i ymgeisydd gyflwyno ei apêl yn erbyn peidio â dilysu. Yn ein barn ni mae'n cloriannu'r angen i ymdrin yn gyflym ag apêl a'r amser mae ymgeisydd yn ei gymryd i ystyried apelio, paratoi a chyflwyno ei ddogfennau.**

| C4 | A ydych yn credu y dylai fod yn ofynnol i Weinidogion Cymru benderfynu ar apeliadau o fewn 21 diwrnod i ddechrau'r cyfnod apelio? | Ydw | Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach) | Nac ydw |
|---|---|---|---|---|
| | | ☒ | ☐ | ☐ |

Sylwadau:
**Nid oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru unrhyw sylwadau ynghylch y cynnig hwn.**

| C5 | Pan ystyrir bod cais yn annilys a bod apêl yn cael ei chyflwyno mewn ymateb i'r hysbysiad peidio â dilysu, a ydych yn cytuno y dylai'r Awdurdod Cynllunio Lleol gadw'r ffi nes i ganlyniad yr apêl honno fod yn hysbys? | Ydw | Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach) | Nac ydw |
|---|---|---|---|---|
| | | ☒ | ☐ | ☐ |

Sylwadau:
**Nid oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru unrhyw sylwadau ynghylch y cynnig hwn.**

## 3.0 Hysbysiadau penderfynu

| C6 | Pan fo hysbysiad penderfynu yn cael ei ddiwygio a ydych yn cytuno y dylai gynnwys<br>a) y dyddiad cymeradwyo, a,<br>b) cyfeirnod perthnasol y cais yn y fersiwn ddiweddaraf o'r hysbysiad? | Ydw | Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach) | Nac ydw |
|---|---|---|---|---|
| | | ☒ | ☐ | ☐ |

Sylwadau:
**Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cytuno â'r cynnig hwn.**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **C7** | **A ydych yn cytuno y dylid diweddaru Gorchymyn y Weithdrefn Rheoli Datblygu er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gadw copi o'r hysbysiad penderfynu mwyaf diweddar ar y gofrestr cynllunio?** | Ydw | Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach) | Nac ydw |
| | | ☒ | ☐ | ☐ |

Sylwadau:
**Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cytuno â'r cynnig hwn.**

## 4.0 Hysbysiadau am ddatblygu

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **C8** | **A ddylid gosod unrhyw ofynion eraill ar y datblygwr o safbwynt ffurf, y cynnwys neu ddangos yr hysbysiad o benderfyniad?** | Dylid | Dylid (yn amodol ar sylwadau pellach) | Ni ddylid |
| | | ☐ | ☒ | ☐ |

Sylwadau:
**Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cynghori y dylid hefyd dangos hysbysiad o ddatblygu pan fydd datblygiad yn cynnwys:- darparu mwy nag un tŷ annedd; neu ddarparu adeilad neu adeiladau y mae'r arwynebedd llawr sy'n cael ei greu gan y datblygiad yn 100 metr sgwâr neu fwy ac sydd o fewn ardal sy'n cael ei gwarchod yn genedlaethol h.y. o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol neu Barc Cenedlaethol. Byddai hyn yn hysbysu'r gymuned leol o ddechrau datblygiad yn yr ardaloedd sensitif hyn. Gall datblygiadau adeiledig yn yr ardaloedd hyn barhau i fod yn sylweddol o ran ymwybyddiaeth gyhoeddus.**

## 5.0 Ymgyngoriadau etc. mewn Perthynas â Cheisiadau Penodol i'w Cymeradwyo

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **C9** | **A ydych yn cytuno na chaiff Awdurdodau Cynllunio Lleol benderfynu ar gais y mae gofyn cynnal ymgynghoriad statudol yn ei gylch, o dan a.35 o'r Bil, nes i'r cyfnodau a ganlyn ddod i ben:**<br>**a) cyfnod o 21 diwrnod,**<br>**b) hyd nes y bydd pob un o'r ymgyngoreion statudol wedi rhoi ateb o sylwedd, pa un bynnag fydd gynharaf, neu** | Ydw | Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach) | Nac ydw |
| | | ☐ | ☒ | ☐ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **c) yn ddarostyngedig i gyfnod hirach os caiff hynny ei gytuno'n ysgrifenedig rhwng yr Awdurdod Cynllunio Lleol a'r ymgynghorai** | | | |

Sylwadau:
**Cefnogir y dull a gynigir yma.Mae'n rhoi sicrwydd na fydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gallu gwneud penderfyniad ar gais heb fod ymateb o sylwedd gan yr ymgynghoreion ar gael i helpu i lywio'r penderfyniad. Yn ogystal, mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cynghori y bydd angen cyfnod ymgynghori o 'ddim llai na 30 diwrnod' ar ddiwygiadau 2014 Senedd a Chyngor Ewrop i Gyfarwyddeb UE 2011/92/EU - yr asesiad o effaith posibl prosiectau cyhoeddus a phreifat ar yr amgylchedd - y mae'n ofynnol iddo gael ei drosi i ddeddfwriaeth y DU a Chymru erbyn 2017, sef pan fydd adroddiad asesiad o'r effaith amgylcheddol yn cael ei gyflwyno gyda chais. Rydym yn awgrymu defnyddio amserlen fel isafswm pan fydd cais yn amodol ar adroddiad asesiad o'r effaith amgylcheddol.**

## Datblygiadau Brys y Goron

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **C10** | **Ar hyn o bryd, fel y nodir yn Erthygl 15 o Orchymyn y Weithdrefn Rheoli Datblygu, rhaid i Weinidogion Cymru, cyn iddynt benderfynu ar gais a wneir o dan adran 293A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref, ganiatáu i o leiaf 14 diwrnod fynd heibio ar ôl iddynt roi hysbysiad i ymgyngoreion statudol. A ydych yn cytuno na ddylid newid y cyfnod hwnnw?** | Ydw | Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach) | Nac ydw |
| | | ☒ | ☐ | ☐ |

Sylwadau:
**Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cymryd agwedd seiliedig ar risg tuag at waith achos. Rydym yn cydnabod yr angen i ymateb yn gyflym i gais am ddatblygiad brys y Goron.**

## 6.0 Apelio yn erbyn Hysbysiad a Ddyroddwyd mewn perthynas â Thir sy’n Effeithio’n Andwyol ar Amwynder (Tir Anniben)

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **C11** | **A ydych yn cytuno y dylai apeliadau y penderfynir arnynt gan Weinidogion Cymru o dan a. 212 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref ddilyn yr un fformat â'r apeliadau gorfodi presennol?** | Ydw | Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach) | Nac ydw |
| | | ☒ | ☐ | ☐ |

Sylwadau:
**Mae Cyfoeth Naturiol Cymru’n cytuno â’r cynnig hwn oherwydd bydd yn eglur ac yn gyson gyda phrosesau apelio eraill.**

| C12 | A ydych yn cytuno bod cyfnod o 4 wythnos yn rhesymol i Awdurdodau Cynllunio Lleol ysgrifennu eu datganiad ar gyfer apêl? Os ydych yn ystyried bod cyfnod arall yn briodol ar gyfer apeliadau o dan a.217, nodwch pam. | Ydw | Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach) | Nac ydw |
|---|---|---|---|---|
| | | ☒ | ☐ | ☐ |

Sylwadau:
**Nid oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru unrhyw sylwadau ynghylch y cynnig hwn.**

## 7.0 Diwygiadau ar ôl Cyflwyno

| C13 | A ydych yn cytuno, pan fo diwygiad yn cael ei gyflwyno mewn perthynas â cheisiadau ar gyfer datblygiadau mawr, y dylai'r Awdurdod Cynllunio Lleol gael pedair wythnos ychwanegol i wneud penderfyniad ar y cais cynllunio? | Ydw | Ydw (yn amodol a sylwadau pellach) | Nac ydw |
|---|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☒ | ☐ |

Sylwadau:
**Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynghori er bod pedair wythnos yn ddigon o amser efallai i Awdurdod Cynllunio Lleol wneud penderfyniad ar ddiwygiad arfaethedig i geisiadau sydd ddim angen adroddiad asesiad o'r effaith amgylcheddol, nid yw'n ddigon o amser ar gyfer ceisiadau gydag adroddiad asesiad o'r effaith amgylcheddol. Fel sy'n cael ei nodi yn ein hateb i G9 bydd cyfnod hirach i ymateb, i adlewyrchu trosi'r Gyfarwyddeb Adroddiad Asesiad o Effaith Amgylcheddol erbyn 2017, angen isafswm o 30 diwrnod ar gyfer ymatebion i geisiadau sydd angen adroddiad asesiad o'r effaith amgylcheddol.**

| C14 i) | A ddylid codi ffi ar gyfer mân ddiwygiadau perthnasol i geisiadau mawr sydd heb eu penderfynu? | Dylid | Dylid (yn amodol ar sylwadau pellach) | Ni ddylid |
|---|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ | ☐ |

Sylwadau:
**Nid oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru unrhyw sylwadau ynghylch y cynnig hwn.**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **C14 ii)** | **Os felly, a ydych yn cytuno bod £190 yn ffi briodol o ystyried yr ymgynghoriad diweddar ar ffioedd ceisiadau cynllunio?** | Ydw | Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach) | Nac ydw |
| | | ☐ | ☐ | ☐ |

Sylwadau:
**Nid oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru unrhyw sylwadau ynghylch y cynnig hwn.**

## 8.0 Ceisiadau sy'n dod o dan Adran 73 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

### Adnewyddiadau

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **C15 i)** | **A ddylai'r gofynion dilysu ar gyfer adnewyddu cais fod yr un peth a'r gofynion a osodir ar gyfer y cais gwreiddiol?** | Dylent | Dylent (yn amodol ar sylwadau pellach) | Ni ddylent |
| | | ☐ | ☐ | ☒ |

Sylwadau:
**Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru'n ystyried y dylai'r gofynion dilysu ar gyfer adnewyddu cais fod yr un peth a'r gofynion a osodir ar gyfer y cais gwreiddiol. Rydym yn cynghori bod angen agwedd gymesur tuag at ddilysu adnewyddu cais. Pan oedd cais gwreiddiol yn destun adroddiad asesiad o'r effaith amgylcheddol yna dylai fod yn ofynnol i adolygu'r datganiad amgylcheddol i adlewyrchu unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau sy'n berthnasol i'r datblygiad trwy gyflwyno gwybodaeth bellach i gefnogi'r cais lle y bo angen. Hefyd dylai'r ddarpariaeth hon fod yn berthnasol i geisiadau nad ydynt yn amodol ar adroddiad asesiad o'r effaith amgylcheddol a oeddent yn wreiddiol yn destun arolygiadau amgylcheddol a/neu wybodaeth amgylcheddol ategol.Pan fydd gwybodaeth wreiddiol yn dal mewn bodolaeth ac yn berthnasol, ni ddylai fod yn ofynnol iymgeisydd ailgyflwyno'r holl wybodaeth flaenorol gan y bydd copïau o'r wybodaeth honno eisoes ym meddiant yr Awdurdod Cynllunio Lleol.**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **C15 ii)** | **A ddylai'r Awdurdod Cynllunio Lleol gael disgresiwn dros y gofynion ymgynghori mewn perthynas ag adnewyddu cais?** | Dylai | Dylai (yn amodol ar y sylwadau pellach) | Ni ddylai |
| | | ☐ | ☒ | ☐ |

Sylwadau:
**Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cymryd agwedd seiliedig ar risg tuag at ein gwaith achos.  Er nad oes angen i Cyfoeth Naturiol Cymru ymateb i'r mwyafrif o geisiadau adnewyddu o dan adran 73, os ydym wedi gwneud sylwadau ar y cais gwreiddiol**

**ac os yw gwybodaeth bellach wedi cael ei chyflwyno, dylid trefnu i ail-ymgynghori ag ymgynghorai statudol fel Cyfoeth Naturiol Cymru.**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **C15 iii)** | **A ddylai'r Awdurdod Cynllunio Lleol gael disgresiwn dros y gofynion hysbysu mewn perthynas ag adnewyddu cais?** | Dylai | Dylai (yn amodol ar sylwadau pellach) | Ni ddylai |
| | | ☒ | ☐ | ☐ |

Sylwadau:
**Nid oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru unrhyw sylwadau ynghylch y cynnig hwn.**

**Mân ddiwygiadau perthnasol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **C16 i)** | **A ddylai'r gofynion dilysu ar gyfer cais am fân ddiwygiad perthnasol fod yr un peth â'r rhai ar gyfer y cais gwreiddiol?** | Dylent | Dylent (yn amodol ar sylwadau pellach) | Ni ddylent |
| | | ☐ | ☐ | ☒ |

Sylwadau:
**Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cynghori er na ddylai'r gofynion dilysu fod yr un peth ag ar gyfer y cais gwreiddiol, dylai fod yn ofynnol i'r ymgeisydd ddiweddaru a diwygio dogfennau i gefnogi cais gwreiddiol, oedd yn amodol ar ddatganiad amgylcheddol a/ neu broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, er mwyn adlewyrchu diwygiadau lle y bo angen.Hefyd pan fydd cais nad yw'n amodol ar adroddiad asesiad o'r effaith amgylcheddol / Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn destun mân ddiwygiad perthnasol sy'n cynnwys gwybodaeth amgylcheddol ategol, dylid gofyn i'r ymgeisydd ddiweddaru hwn hefyd**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **C16 ii)** | **A ddylai'r Awdurdod Cynllunio Lleol gael disgresiwn dros y gofynion o ran ymgynghori mewn perthynas â chais am fân ddiwygiadau perthnasol?** | Dylai | Dylai (yn amodol ar sylwadau pellach) | Ni ddylai |
| | | ☐ | ☒ | ☐ |

Sylwadau:
**Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cynghori os ydym wedi gwneud sylwadau ar y cais gwreiddiol ac os yw gwybodaeth bellach wedi cael ei chyflwyno, dylid trefnu i ail-ymgynghori ag ymgynghorai statudol fel Cyfoeth Naturiol Cymru**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **C16 iii)** | | Dylai | Dylai | Ni ddylai |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **A ddylai'r Awdurdod Cynllunio Lleol gael disgresiwn dros y gofynion hysbysu ar gyfer cais am fân ddiwygiad perthnasol?** | | (yn amodol ar sylwadau pellach) | |
| | | ☒ | ☐ | ☐ |

Sylwadau:
**Nid oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru unrhyw sylwadau ynghylch y cynnig hwn.**

**Amrywio neu ddileu amod sydd ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio nad yw'n dod o dan y catgorïau uchod (adnewyddu a mân newidiadau perthnasol)**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **C17 i)** | **A ddylid defnyddio'r un gofynion dilysu ar gyfer y ceisiadau hyn ag a ddefnyddir ar gyfer y cais gwreiddiol?** | Dylid | Dylid (yn amodol ar sylwadau pellach) | Ni ddylid |
| | | ☐ | ☐ | ☒ |

Sylwadau:
**Fel yn ein hateb i G16i, mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cynghori er na ddylai'r gofynion dilysu fod yr un peth ar gyfer y ceisiadau hyn a'r gofynion dilysu ar gyfer y cais gwreiddiol, dylai fod yn ofynnol i ymgeisydd ddiweddaru a diwygio dogfennau i gefnogi cais gwreiddiol, oedd yn amodol ar ddatganiad amgylcheddol a/neu broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, i adlewychu diwygiadau lle y bo angen.Hefyd pan fydd cais nad yw'n amodol ar adroddiad asesiad o'r effaith amgylcheddol / Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn destun mân ddiwygiad perthnasol sy'n cynnwys gwybodaeth amgylcheddol ategol, dylid gofyn i'r ymgeisydd ddiweddaru hwn hefyd.**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **C17 ii)** | **A ddylai'r Awdurdod Cynllunio Lleol gael disgresiwn dros y gofynion ymgynghori ar gyfer y ceisiadau hyn?** | Dylai | Dylai (yn amodol ar sylwadau pellach) | Ni ddylai |
| | | ☐ | ☒ | ☐ |

Sylwadau:
**Mae Cyfoeth Naturiol Cymru’n cynghori os ydym wedi gwneud sylwadau ar y cais gwreiddiol ac os yw gwybodaeth bellach wedi cael ei chyflwyno, dylid trefnu i ail-ymgynghori ag ymgynghorai statudol fel Cyfoeth Naturiol Cymru.**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **C17 iii)** | **A ddylai'r Awdurdod Cynllunio Lleol gael disgresiwn dros y gofynion hysbysu sydd ynghlwm wrth y ceisiadau hyn?** | Dylai | Dylai (yn amodol ar sylwadau pellach) | Ni ddylai |
| | | ☒ | ☐ | ☐ |

| |
|---|
| Sylwadau:<br>**Nid oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru unrhyw sylwadau ynghylch y cynnig hwn.** |

| C18 | Wrth gyflwyno cais sy'n dod o dan a.73 ac a gyflwynir wedi i gais gael ei wrthod o dan a.96A o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref, a ddylai'r ffi a godir ar gyfer cais o'r fath fod yn seiliedig ar y gwahaniaeth rhwng y ffioedd hynny? | Dylai | Dylai (yn amodol ar sylwadau pellach) | Ni ddylai |
|---|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ | ☐ |
| Sylwadau:<br>**Nid oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru unrhyw sylwadau ynghylch y cynnig hwn.** | | | | |

## 9.0 Ffioedd ar gyfer y gwasanaeth cyn ymgeisio statudol

| C19 | Os yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'r ymgeisydd yn cytuno'n ysgrifenedig, a ydych yn cytuno y dylid caniatáu estyniadau? | Ydw | Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach) | Nac ydw |
|---|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ | ☐ |
| Sylwadau:<br>**Nid oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru unrhyw sylwadau ynghylch y cynnig hwn** | | | | |

| C20 | A ydych yn cytuno â lefel y ffioedd arfaethedig a ddisgrifir yn Nhabl 1? Os nad ydych, pa ffioedd y dylid eu gosod? | Ydw | Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach) | Nac ydw |
|---|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ | ☐ |
| Sylwadau:<br>**Nid oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru unrhyw sylwadau ynghylch y cynnig hwn.** | | | | |

| C21 | A oes gennych unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud ynghylch y gwasanaeth cyn ymgeisio statudol? | Oes | Oes (yn amodol ar sylwadau pellach) | Nac oes |
|---|---|---|---|---|

| | | ☐ | ☐ | ☒ |
|---|---|---|---|---|

Sylwadau:
**Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n ymgynghori ar ein ffioedd a'n costau ar gyfer 2016-2017. Mae hyn yn cynnwys nifer o egwyddorion yr ydym yn bwriadu eu defnyddio i godi ffi am Wasanaeth Cynghori ar Gynllunio Ychwanegol. Bydd hyn yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i gloriannu adnoddau ein gwaith statudol a'n rôl ymgynghorol yn ôl disgresiwn. Mae'r ymgynghoriad yn gorffen ar 26 Tachwedd 2015 a bydd yn llywio ymgynghoriad manwl yn yr hydref 2016 gyda'r nod o roi'r cynllun ar waith ym mis Ebrill 2017.**

| C22 | Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau perthnasol nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, rhowch wybod i ni drwy ddefnyddio'r blwch isod. |
|---|---|

Sylwadau:
**Nid oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru unrhyw sylwadau ynghylch y cynnig hwn.**

Nid wyf eisiau i fy enw / fy nghyfeiriad gael eu cyhoeddi gyda fy ymateb (ticiwch y blwch) ☐

## Sut i Ymateb

**Anfonwch eich sylwadau atom mewn unrhyw un o'r ffyrdd isod:**

**E-bost**

Llenwch y ffurflen ymgynghori a'i hanfon i:

**planconsultations-i@cymru.gsi.gov.uk**

[Rhowch **'Is-ddeddfwriaeth ar gyfer rheoli datblygu'** yn y llinell pwnc]

**Post**

| |
|---|
| Llenwch y ffurflen ymgynghori a'i hanfon i:<br>**Ymgynghoriad ar Is-ddeddfwriaeth ar gyfer rheoli datblygu**<br>**Y Gangen Rheoli Datblygu**<br>**Yr Is-adran Gynllunio**<br>**Llywodraeth Cymru**<br>**Parc Cathays**<br>**Caerdydd**<br>**CF10 3NQ** |
| **Gwybodaeth ychwanegol** |
| Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad hwn,<br>E-bost: planconsultations-i@cymru.gsi.gov.uk<br><br>Rhif ffôn: Kristian Morgan 029 2082 3360 |